



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 367 (Cy.37)

2009 No. 367 (W.37)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur,
Cwm Cadnant, Penmynydd,
Pentraeth a Llanfair Mathafarn
Eithaf) 2009

The County of the Isle of Anglesey
(Holyhead, Trearddur, Cwm
Cadnant, Penmynydd, Pentraeth
and Llanfair-Mathafarn-Eithaf
Communities) Order 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"), a gyflwynodd adroddiad yn Ebrill 2008 ar ei adolygiad o ffiniau cymunedol mewn rhan o Sir Ynys Môn. Yn adroddiad y Comisiwn argymhellwyd gwneud newidiadau i ffiniau cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

This Order is made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972. It gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") which reported in April 2008 on its review of community boundaries in part of the County of the Isle of Anglesey. The Commission's report recommended changes to the boundaries of Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf communities and consequential changes to electoral arrangements. This Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Mae printiau o'r mapiau yn dangos y ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol).

Prints of the maps showing the boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Isle of Anglesey County Council, Llangefni and at the offices of the Welsh Assembly Government at Cathays Park, Cardiff (Local Government Policy Division).

Mae Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchymynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchymynion hynny.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 referred to in article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

2009 Rhif 367 (Cy.37)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur,
Cwm Cadnant, Penmynydd,
Pentraeth a Llanfair Mathafarn
Eithaf) 2009**

Gwnaed 23 Chwefror 2009

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) i (4)

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1), adroddiad dyddiedig Ebrill 2008 ar ei adolygiad o gymunedau mewn rhan o Sir Ynys Môn a'i gynigion ar eu cyfer.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ynys Môn (Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009.

(1) 1972 p.70.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

2009 No. 367 (W.37)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The County of the Isle of Anglesey
(Holyhead, Trearddur, Cwm
Cadnant, Penmynydd, Pentraeth
and Llanfair-Mathafarn-Eithaf
Communities) Order 2009**

Made 23 February 2009

Coming into force in accordance with article 1(2) to (4)

The Local Government Boundary Commission for Wales has, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(1), submitted to the Welsh Ministers a report dated April 2008 on its review of, and proposals for, communities within part of the County of the Isle of Anglesey.

The Welsh Ministers have decided to give effect to those proposals without modification.

More than six weeks have elapsed since those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(2):

Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the County of the Isle of Anglesey (Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009.

(1) 1972 c.70.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) At unrhyw ddiben a ddisgrifir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl diwrnod ei wneud.

(3) Mae erthyglau 6, 9 ac 11 yn dod i rym—

- (a) at ddibenion gweithrediadau sy'n dod cyn unrhyw etholiad sydd i'w gynnal, neu sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad o'r fath, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012, ar 15 Hydref 2011;
- (b) at bob diben arall, ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2012.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2009, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Map A" ("*Map A*"), "Map B" ("*Map B*"), "Map C" ("*Map C*") a "Map D" ("*Map D*"), yn ôl eu trefn, yw'r mapiau sydd wedi'u marcio ag A, B, C a D o Orchymyn Sir Ynys Môn (Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009 ac sydd wedi'u hadneuo'n unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(1);

mae unrhyw gyfeiriad at adran etholiadol yn gyfeiriad at un o adrannau etholiadol Sir Ynys Môn; ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd daeryddol tebyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

3. Mae newidiadau wedi'u gwneud yn ardal llywodraeth leol Sir Ynys Môn yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

Trearddur a Chaergybi - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Trearddur a ddangosir fel darn rhesog "A" ar Fap A—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Caergybi;
- (b) yn rhan o ward Ffordd Llundain cymuned Caergybi; ac
- (c) yn rhan o adran etholiadol Ffordd Llundain.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on the day after that on which it is made.

(3) Articles 6, 9 and 11 come into force—

- (a) for the purpose of proceedings preliminary or relating to any election to be held on the ordinary day of election of councillors in 2012, on 15 October 2011;
- (b) for all other purposes, on the ordinary day for election of councillors in 2012.

(4) For all other purposes, this Order comes into force on 1 April 2009, which is the appointed day for the purposes of the Regulations.

Interpretation

2. In this Order—

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(1);

"Map A" ("*Map A*"), "Map B" ("*Map B*"), "Map C" ("*Map C*") and "Map D" ("*Map D*"), mean respectively the maps marked A, B, C and D of the County of the Isle of Anglesey (Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009 and deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations;

any reference to an electoral division is a reference to an electoral division of the County of the Isle of Anglesey; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

3. Changes are made in the local government area of the County of the Isle of Anglesey in accordance with the following provisions of this Order.

Trearddur and Holyhead - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

4. The part of the community of Trearddur shown as hatched area "A" on Map A—

- (a) is transferred to the community of Holyhead;
- (b) forms part of the London Road ward of the community of Holyhead; and
- (c) forms part of the electoral division of London Road.

(1) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol nad yw'r diwygiadau iddynt yn berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

(1) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument).

5. Mae'r rhan o gymuned Trearddur a ddangosir fel darn rhesog "B" ar Fap A—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Caergybi;
- (b) yn rhan o ward Kingsland yng nghymuned Caergybi; ac
- (c) yn rhan o adran etholiadol Kingsland.

6. Yng nghymuned Caergybi 2 yw nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Kingsland, 2 yw'r nifer ar gyfer ward Ffordd Llundain, 2 yw'r nifer ar gyfer ward Morawelon a 3 yw'r nifer ar gyfer ward Porthyfelin.

Cwm Cadnant a Phenmynydd - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

7. Mae'r rhan o gymuned Cwm Cadnant a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap B—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Penmynydd; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Llanfihangel Ysgeifiog.

Cwm Cadnant a Phentraeth - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

8. Mae'r rhan o gymuned Cwm Cadnant a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap C—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Pentraeth; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Pentraeth.

9. Mae wardiau cymunedol cymuned Cwm Cadnant wedi'u diddymu a 12 yw nifer y cynghorwyr cymunedol sydd i'w hethol ar gyfer cymuned Cwm Cadnant.

Llanfair Mathafarn Eithaf a Phentraeth - newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i'r trefniadau etholiadol

10. Mae'r rhan o gymuned Llanfair Mathafarn Eithaf a ddangosir â llinellau rhesog ar Fap D—

- (a) wedi'i throsglwyddo i gymuned Pentraeth; a
- (b) yn rhan o adran etholiadol Pentraeth.

11. Yng nghymuned Llanfair Mathafarn Eithaf 2 yw nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward Llanbedr-goch.

5. The part of the community of Trearddur shown as hatched area "B" on Map A—

- (a) is transferred to the community of Holyhead;
- (b) forms part of the Kingsland ward within the community of Holyhead; and
- (c) forms part of the electoral division of Kingsland.

6. In the community of Holyhead the number of community councillors to be elected for the Kingsland ward is 2, for the London Road ward is 2, for the Morawelon ward is 2 and for the Porthyfelin ward is 3.

Cwm Cadnant and Penmynydd - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

7. The part of the community of Cwm Cadnant shown hatched on Map B—

- (a) is transferred to the community of Penmynydd; and
- (b) forms part of the electoral division of Llanfihangel Ysgeifiog.

Cwm Cadnant and Pentraeth - change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

8. The part of the community of Cwm Cadnant shown hatched on Map C—

- (a) is transferred to the community of Pentraeth; and
- (b) forms part of the electoral division of Pentraeth.

9. The community wards of the community of Cwm Cadnant are abolished and the number of community councillors to be elected for the community of Cwm Cadnant is 12.

Llanfair-Mathafarn-Eithaf and Pentraeth - change in the community areas and consequential changes to electoral arrangements

10. The part of the community of Llanfair-Mathafarn-Eithaf shown hatched on Map D—

- (a) is transferred to the community of Pentraeth; and
- (b) forms part of the electoral division of Pentraeth.

11. In the community of Llanfair-Mathafarn-Eithaf the number of councillors to be elected for the Llanbedr-goch ward is 2.

Brian Gibbons


Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one
of the Welsh Ministers

23 Chwefror 2009

23 February 2009


Map A Gorchymyn Sir Ynys Môn (Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordnans gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawffraint y Goron 2009. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916


126-08-09a Cartograffeg
 Lywodraeth Cynulliad Cymru

Map A of the County of the Isle of Anglesey (Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth and Lanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2009. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916


**Map B Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant,
Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009**



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordnans gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwassg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2009.
Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

126.08-09b Cartograffeg
Llywodraeth Cynulliad Cymru


**Map B of the County of the Isle of Anglesey
(Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd,
Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009**



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2009. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

126.08-09b Cartographics
Welsh Assembly Government


**Map C Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant,
Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009**



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordnans gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2009.
Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

126.08-09c Cartograffeg
Llywodraeth Cynulliad Cymru


**Map C of the County of the Isle of Anglesey
 (Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd,
 Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009**



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2009. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

126.08-09c Cartographics
 Welsh Assembly Government


**Map D Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur, Cwm Cadnant,
Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009**



Mae'r map hwn yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordians gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron 2009.
Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

126.08-09d Cartograffeg
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Map D of the County of the Isle of Anglesey
(Holyhead, Trearddur, Cwm Cadnant, Penmynydd,
Pentraeth and Llanfair-Mathafarn-Eithaf Communities) Order 2009**



This map is based upon the Ordnance Survey map by the Welsh Assembly Government with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2009. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

126.08-09d Cartographics
Welsh Assembly Government

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 367 (Cy.37)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Sir Ynys Môn
(Cymunedau Caergybi, Trearddur,
Cwm Cadnant, Penmynydd,
Pentraeth a Llanfair Mathafarn
Eithaf) 2009

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 367 (W.37)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The County of the Isle of Anglesey
(Holyhead, Trearddur, Cwm
Cadnant, Penmynydd, Pentraeth
and Llanfair-Mathafarn-Eithaf
Communities) Order 2009

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

£5.00

W433/03/09

ON